

Swyddfa Comisiynydd
Yr Heddlu a Throseddu
GWENT
Office of Police and
Crime Commissioner

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
ar gyfer Gwent

Adroddiad Blynyddol 2015 - 2016



CYNNWYS

Croeso	3
Cynnydd o ran ein Blaenoriaethau ar gyfer 2013-2017	
Y Flaenoriaeth Gyntaf: Darparu'r Gwasanaeth Gorau Posibl	4
Yr Ail a'r Drydedd Flaenoriaeth: Atal a Lleihau Troseddu a Mynd i'r Afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol	10
Y Bedwaredd Flaenoriaeth: Diogelu Pobl rhag Niwed Difrifol	16
Y Bumed Flaenoriaeth: Gwneud y Defnydd Gorau o Adnoddau a Sicrhau Gwerth am Arian	18

Cysylltwch â'r Comisiynydd

Ebost: commissioner@gwent.pnn.police.uk

Ffôn: 01633 642 200

We: www.gwent.pcc.police.uk

Twitter: @GwentPCC

Facebook: www.facebook.com/gwentpcc

Gallwch hefyd trawslwytho **App GwentPCC**



CROESO



Mae'n bleser gennyf gyflwyno fy Adroddiad Blynyddol, sy'n crynhoi ac yn amlygu cynnydd prif fentrau fy swyddfa rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016, wrth fynd ar drywydd fy mlaenoriaethau plismona.

Fel y gwyddoch o bosibl, nodais fy mlaenoriaethau yng Nghynllun Heddlu a Throseddu 2013-2017, sef:

- Darparu'r gwasanaeth gorau posibl
- Atal a lleihau troseddu
- Cymryd camau mwy effeithiol i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Diogelu pobl rhag niwed difrifol
- Gwneud y defnydd gorau o adnoddau a sicrhau gwerth am arian

Mae hon yn ddogfen statudol sy'n ofynnol o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

Yn fy adroddiad blynyddol ar gyfer 2014-2015, manylais ar yr hyn y byddai fy nhîm a minnau yn canolbwyntio arno dros y flwyddyn i ddod. Mae'r adroddiad hwn yn dangos sut yr aed ar drywydd y meysydd pwysig hynny yn ystod 2015 a 2016, a'r gwahaniaeth y maent wedi ei wneud i bobl Gwent o ran plismona a'u perthynas â Heddlu Gwent a'm Swyddfa.

Mae dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am berfformiad cyffredinol yr heddlu yn rhan o'm dyletswydd ddeddfwriaethol o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, felly, mae meithrin perthnasoedd gwaith da yn hanfodol. Er mwyn gwneud hyn, caf gyfarfodydd rheolaidd â'r Prif Gwnstabl a'i swyddogion ac asiantaethau a phartneriaid eraill er mwyn sicrhau ein bod yn cydweithio'n effeithiol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi cynnal amrywiaeth eang o raglenni ymgysylltu ac ymgynghoriadau â'r cyhoedd, er mwyn ceisio pwysu a mesur barn pobl ynghylch y canlynol:

- Beth sy'n bwysig iddynt hwy o ran troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Sut y byddwn yn ariannu'r gwaith o blismona Gwent yn y dyfodol; a
- Gwelliannau y gellir eu gwneud i sicrhau bod yr heddlu yn darparu gwasanaeth teg a chydadd i bawb yng Ngwent.

Un o'r agweddau mwyaf dymunol ar fy rôl yw'r gallu i gomisiynu gwasanaethau a dyfarnu grantiau i sefydliadau neu gyrff sy'n cefnogi fy mlaenoriaethau plismona.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen fy Adroddiad Blynyddol. Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb sydd wedi cydweithio â mi dros y cyfnod hwn i wneud gwahaniaeth i blismona yng Ngwent. Diolch hefyd i bobl Gwent, yr wyf yn eu gwasanaethu, am gydweithio â'm swyddfa ac am roi o'u hamser i gynnig adborth gonest a didwyll. Mae'r berthynas rhwng y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, yr Heddlu a'r cyhoedd yn hanfodol, a hir oes iddi.

Ian Johnston QPM

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Gwent

Cyhoeddwyd gan
Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer Gwent
Pencdlys yr Heddlu
Croesyceiliog
Cwmbrân
Torfaen
NP44 2XJ

Ffôn: 01633 642 200
Epost: commissioner@gwent.pnn.police.uk
Gwefan: www.gwent.pcc.police.uk

Cynnydd o ran ein Blaenoriaethau ar gyfer 2013-2017

Y Flaenoriaeth Gyntaf: Darparu'r Gwasanaeth Gorau Posibl

Gwranddo ar y gymuned ac ymgysylltu â hi yw'r ffordd y mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau yn parhau i fonitro a yw pobl Gwent yn fodlon bod y gwasanaeth a ddarperir gan yr heddlu yn bodloni eu gofynion. Gwneir hyn trwy ein rhaglen ymgysylltu ac ymgynghori flynyddol a gynhelir gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau.

Isod rydym wedi nodi rhagor o fanylion am y prif fentrau y mae'r Swyddfa wedi ymgymryd â hwy yn ystod 2015/16. Mae'r rhain wedi'u rhoi ar waith o ganlyniad i waith ymgysylltu eang â'r gymuned.

Ymgysylltu â'n Cymunedau

Digwyddiadau ymgysylltu Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau



Rhwng mis Ebrill 2015 a mis Chwefror 2016, aeth y Comisiynydd Heddlu a Throseddau, y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddau a staff Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau i 256 o weithgareddau ymgysylltu.

Rhoddodd y prosiectau a'r gweithgareddau ymgysylltu hyn y cyfle i bobl a sefydliadau gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau, er mwyn dylanwadu ar eu gwasanaeth plismona; cael gwasanaeth cymorth; cael grantiau ar gyfer prosiectau cymunedol, a chymryd rhan ar lefelau amrywiol sy'n addas iddynt hwy.

Ymhlith yr enghreifftiau o'r gweithgareddau hyn mae: hwyluso cyfarfodydd â'r trydydd sector, er mwyn galluogi'r trydydd sector i gael cyllid a chodi ymwybyddiaeth o gonsortia; cefnogi a chyllido Paneli Atal Troseddau Lleol gwirfoddol, sy'n darparu gwasanaeth plismona lleol; sefydlu Gwent Mwy Diogel er mwyn datblygu dull partneriaeth strategol i ymdrin â diogelwch cymunedol ledled rhanbarth Gwent. cynnal ymgynghoriadau ynghylch blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddau a Chynllun Cydraddoldeb Strategol Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau; ymgysylltu â gwasanaethau dioddefwyr er mwyn gwella'r ddarpariaeth leol i bob dioddefwr trwy Gyswilt Gwent a'r Heddlu; lansio Cynllun Braenaru Peilot ar gyfer Menywod yng Nghymru, sy'n cynnig ffordd wedi'i theilwra o weithio gyda menywod a merched sy'n dod i gysylltiad â'r System Cyfiawnder Troseddol a hwyluso cyfarfodydd â busnesau lleol a sefydliadau busnes i wella eu hymwybyddiaeth o seiberdroseddau.

Ein Cymuned Ar-lein

Rydym hefyd wedi gweld cynnydd mewn gweithgarwch ar-lein:

	Mawrth 2015	Mawrth 2016	Cynnydd / Lleihad
 Twitter	2,196	2,997	34.7% o gynnydd
 Facebook	1,107	1,218	10.02% o gynnydd

Ar 1 Hydref 2015, rhoddwyd gwasanaeth newydd ar waith i fonitro'r cyfryngau (ac eithrio darllediadau ar y teledu a'r radio). O ganlyniad i newidiadau yn y ddarpariaeth ar gyfer monitro'r cyfryngau a thoriad yn y gwasanaeth a ddarparwyd, nid oes modd gwneud cymhariaeth lawn â data o'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, cofnodwyd 447 o erthyglau i'r wasg yn ystod y chwe mis diwethaf; roedd 274 ohonynt yn gadarnhaol a dim ond 22 ohonynt yn negyddol. Cyfanswm gwerth ariannol y toriadau o'r wasg a gofnodwyd yw £608,397.40, a llwyddwyd i gyrraedd 29,960,061 o bobl.

Prosiect Cyngor Hil Cymru

Yn 2015/16, darparodd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu gyllid grant i Gyngor Hil Cymru i'w alluogi i gynnal prosiect ymchwil. Nod y prosiect oedd meithrin dealltwriaeth lawn o ddemograffeg Gwent, trwy nodi'r grwpiau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig sy'n dod i'r amlwg, a dogfennu eu perthnasoedd a'u cysylltiadau presennol â'r Heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol.



Canolbwyntiodd y prosiect yn bennaf ar ardal ehangach Gwent. Mae Casnewydd eisoes wedi datblygu rhwydweithiau a pherthnasoedd da rhwng yr Heddlu a chymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, ac mae'n parhau i wneud hynny. Trwy'r prosiect, ymgysylltodd y cydgysylltydd â phobl o amrywiol hil ac ethnigrwydd ledled Gwent, gan gynnwys: pobl Affricanaidd/Caribiaidd, yn cynnwys pobl o Angola gynt, Bwrcina Ffaso, Congo, Y Traeth Ifori, Swdan, Nepal, Syria ac Iraciaidd/Cwrdaidd. Mae canlyniadau'r prosiect wedi'u hychwanegu at y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd ar gyfer 2016-2020 i'w datblygu.

'Eich Llais'



Fel y trafodwyd mewn adroddiadau blynyddol blaenorol, credwn fod 'ymgysylltu' â chymunedau yn un o swyddogaethau mwyaf hanfodol a chreiddiol Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Ym mis Mawrth 2015, cafodd arolwg 'Eich Llais' ei greu a'i weithredu, yn lle'r cyfarfodydd Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT) blaenorol. Mae'r arolwg hwn wedi

golygu bod pobl wedi gallu cwrdd â'u Harolygwyr lleol bob pedair mis tra bo Swyddogion Cymorth Cymunedol wedi parhau i gynnal amrywiaeth o gymorthfeydd yr Heddlu. Nod 'Eich Llais' yw sicrhau bod y cyhoedd yn cael cyfle i ymgysylltu â'r heddlu, ac i ddweud wrtho pa faterion plismona sy'n effeithio arnynt hwy a'u cymunedau. Mae'r arolwg hwn yn golygu bod 'llais' y cyhoedd yn hollbwysig i ddylanwadu ar blismona yng nghymdogaethau Gwent.

Hyd yma, mae tua 45,000 o bobl wedi mynegi eu barn ar yr heddlu trwy broses 'Eich Llais'. Yn galonogol ddigon, y categori a ddenodd y nifer mwyaf o ymatebion ym mhob arolwg oedd 'dim materion plismona ar hyn o bryd'. Roedd y materion mwyaf cyffredin a godwyd yn ymwneud â thraffig, megis parcio a goryrru, ac amrywiol fathau o ymddygiad gwrthgymdeithasol

Ymgynghoriadau

Rydym wedi parhau i ymgynghori â chymunedau ledled Gwent er mwyn rhoi'r cyfle i chi drafod y materion sy'n bwysig i chi. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi amlinellu isod sut mae canfyddiadau'r ymgynghoriadau wedi cael eu defnyddio i ddylanwadu ar blismona a'i lywio.

Blaenoriaethau o ran yr Heddlu a Throseddu

Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ddyletswydd statudol i ddatblygu Cynllun Heddlu a Throseddu, er mwyn rhoi cyfeiriad strategol i Heddlu Gwent. Mae'n ddyletswydd statudol

bod hyn yn cael ei wneud mewn ymgynghoriad â'r cyhoedd. Felly, cyhoeddodd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu e-ymgynghoriad ar wefan y Swyddfa o'r enw 'Eich Plismona – Eich Llais' rhwng mis Mehefin 2015 a mis Awst 2015. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn i gymunedau Gwent am eu barn ynghylch y canlynol:

- Pa mor bwysig oedd y blaenoriaethau presennol o ran yr Heddlu a Throseddu iddynt hwy
- Pa dueddiadau lleol o ran troseddu oedd bwysicaf iddynt hwy
- Pa dueddiadau cenedlaethol newydd o ran troseddu oedd yn peri'r pryder mwyaf iddynt hwy.

Mae'r ymateb cyffredinol i'r ymgynghoriad yn dangos bod ymatebwyr yn fodlon bod y blaenoriaethau presennol sy'n rhan o'r Cynllun Heddlu a Throseddu yn berthnasol ac nad oes angen eu diwygio ar hyn o bryd.

Ymgynghoriad ar y Praesept

Mae gofyniad cyfreithiol ar y Comisiynydd Heddlu a Throseddu i bennu cyllideb yr Heddlu a lefel y praesept. (Praesept yw cyfran y gost o blismona a delir o dreth gyngor trigolion). A chofio hyn, lansiodd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ymgynghoriad 'Dweud Eich Dweud' ar-lein ynghylch pennu lefel y praesept ar gyfer 2016/17, a gofynnodd i'r cyhoedd yng Ngwent a oeddent yn barod i dalu ychydig yn fwy am eu gwasanaeth plismona. Atebodd 526 o bobl y cwestiynau ynghylch y praesept. Roedd y canlyniadau yn bendant o blaid talu'r cynnydd canrannol uwch. I gael rhagor o wybodaeth am yr ymgynghoriad hwn, gweler y ddolen isod:

<http://www.gwent.pcc.police.uk/cy>

Ymgynghoriad ynghylch y Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ynghylch y Cynllun Cydraddoldeb Strategol rhwng mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2015, a'i nod oedd canfod safbwyntiau a barn y cyhoedd, rhanddeiliaid a phartion â diddordeb mewn perthynas ag amcanion cydraddoldeb strategol arfaethedig Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Cafodd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol presennol ei adolygu er mwyn sicrhau bod Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Heddlu Gwent yn cyflawni eu dyletswyddau o ran cydraddoldeb o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a'u bod yn gweithredu'n deg ac yn gydradd mewn perthynas â phawb sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig.

Cymerodd 471 o bobl ran yn ymgynghoriad Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Isod ceir casgliad o'r hyn oedd bwysicaf i bobl o ran cydraddoldeb a gwasanaeth plismona teg.

- Cyllidebau a Chynilon yr Heddlu:
Dangos nad yw heddlu teg a chydadd yn ddibynnol ar argaeledd cronfeydd yr Heddlu.
- Cyfieithu i'r Gymraeg:
Dylai dogfennau a gwybodaeth gael eu cyfieithu yn unol ag anghenion Gwent.
- Cydlyniant Cymunedol:
Dylid rhoi mentrau cydlyniant penodol ar waith i atal hunanwahanu ac aflonyddwch cymunedol rhag parhau.
- Recriwtio ar sail teilyngdod:
Dylai swyddogion a staff gael eu recriwtio ar sail eu gallu, ac nid eu hil. Ystyriwyd bod yr amcan i gynyddu nifer yr ymgeiswyr o grwpiau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn wahaniaethu cadarnhaol.
- Hyfforddi Swyddogion:
Sicrhau bod mwy o hyfforddiant ar gydraddoldeb i swyddogion ar gael.
- Data Stopio a Chwilio:
IMae gwybodaeth am stopio a chwilio yn cael ei chyhoeddi yn ôl hil, er mwyn sicrhau bod pob achos o stopio a chwilio yn deg ac yn gymesur.
- Iechyd meddwl a'r ddalffa:
Mae angen adolygu'r camau sy'n cael eu cymryd ar hyn o bryd wrth ymdrin â phobl â phroblemau iechyd meddwl yn y ddalffa.

Eir ar drywydd y materion hyn er mwyn helpu i ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y cyd rhwng Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Heddlu Gwent ar gyfer 2016-2020.

Stopio a Chwilio - Ansawdd

Mae dyletswydd ar y Comisiynydd Heddlu a Throseddu i sicrhau bod swyddogion yn gwneud 'y defnydd gorau o bwerau stopio a chwilio'. Fel rhan o'r ddyletswydd hon, rhwng mis Mehefin 2015 a mis Ionawr 2016, cynhaliodd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu arolwg cyhoeddus, a oedd yn gofyn i bobl yng Ngwent a oedd wedi cael eu stopio a'u chwilio dros y 12 mis diwethaf, lenwi holiadur. Nod yr holiadur oedd casglu eu sylwadau, eu barn, a'u teimladau



tuag at Heddlu Gwent, a gwybodaeth am y ffordd y cawsant eu trin gan swyddogion pan gawsant eu stopio a'u chwilio. Llenwodd carfan fach o bobl yr arolwg, a dywedodd y mwyafrif nad oeddent yn ymwybodol o'u hawliau pan gawsant eu stopio a'u chwilio. Mae'r wybodaeth hon wedi llywio rhaglen weithgarwch Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020, a fydd yn rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd am hawliau pobl pan fyddant yn cael eu stopio a'u chwilio gan yr Heddlu.

Mae'r holl wybodaeth arall sy'n deillio o'r ymatebion wedi cael ei defnyddio gan yr Heddlu i wella'r ffordd y mae Heddlu Gwent yn stopio a chwilio, er mwyn sicrhau ei fod bob amser yn gwneud hynny mewn ffordd gymesur, briodol a theg

Mae dioddefwyr wrth wraidd popeth a wnawn

Connect Gwent

Fel yr amlinellwyd yn adroddiad blynyddol 2014/15, mae'r cyllid ar gyfer gwasanaethau i ddiodeffwyr wedi newid yn genedlaethol. Nid yw Cymorth i Ddiodeffwyr yn cael cyllid yn uniongyrchol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder mwyach. Yn lle hynny, mae'r cyllid yn cael ei ddyrannu i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu er mwyn comisiynu gwell gwasanaethau cymorth i ddiodeffwyr.



Gwnaethom achub ar y cyfle hwn i weithio gyda phartneriaid a'r gymuned i ystyried y ffordd rydym yn darparu gwasanaethau i ddiodeffwyr, a myfyrio ar hynny. Roedd hyn yn sicrhau ein bod yn rhoi 'dioddefwyr wrth wraidd popeth a wnawn, ac, felly, yn buddsoddi'n helaeth yn y maes hwn.

O ganlyniad i hyn, yn 2014, gwireddwyd cysyniad Connect Gwent, sef hwb amlasiantaeth arloesol a

chyfannol. Ym mis Mai 2015, ymunodd Comisiynydd Dioddefwyr Cymru a Lloegr, y Farwnes Helen Newlove o Warrington, â'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu i lansio'r fenter hon. Ers y lansiad, rydym wedi bod yn gweithio'n galed gyda phartneriaid i ddatblygu model a'i sefydlu ym mhob rhan o'r heddlu a'r gymuned ehangach. Mae Connect Gwent bellach yn lletya asiantaethau partner, gan gynnwys Cymorth i Ddiodeffwyr, Llwybrau Newydd, Embrace, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Umbrella Gwent, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac Age Cymru. Ym mis Medi 2015, er mwyn hyrwyddo a chefnogi presenoldeb Age Cymru, sef yr asiantaeth ddiweddaraf i gael ei lletya gan Connect Gwent, ymwelodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Sarah Rochira, â'r hwb i drafod partneriaethau cryfach, er mwyn gwella gwasanaethau i ddiodeffwyr ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru.

Ers i Connect Gwent gael ei lansio yn 2015, mae cyfraddau atgyfeirio wedi cynyddu dros 40%. Rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2015, cafodd Connect Gwent 27,072 o atgyfeiriadau at Cymorth i Ddiodeffwyr o gymharu â 15,377 yn y flwyddyn cyn i Connect Gwent gael ei ffurfio.

Mae hyn yn golygu bod mwy o ddiodefwyr troseddau yng Ngwent bellach yn gallu manteisio ar y ddarpariaeth newydd a gwell hon. Hyd yma, mae'r data'n dangos, o ran boddhad diodefwyr, ein bod wedi symud o safle 43 i safle 11 yn genedlaethol. Hyderwn y bydd Connect Gwent yn parhau i ffynnu a chefnogi mwy o ddiodefwyr troseddau.

Dwyn yr heddlu i Gyfrif

O dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, un o ddyletswyddau craidd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yw dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif. Mae'r paragraffau canlynol yn amlinellu'r modd y mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn craffu ar yr heddlu ac yn ei fonitro o ran y gofyniad hwn i sicrhau datblygiad a gwelliant parhaus.

Hyder y Cyhoedd

Thema	Cyfartaledd Cenedlaethol Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr 12 mis hyd at fis Medi '14	Gwent 12 mis hyd at fis Medi '14	Gwent 12 mis hyd at fis Medi '15
Yr Heddlu yn delio â blaenoriaethau cymunedol	61.4%	59.8%	58.1% (-1.7%)
Eich trin â pharch	86.7%	82.2%	86.6% (+4.4%)
Trin pawb yn deg	66.7%	60.8%	62.1% (+1.3%)

Ar gyfer y 12 mis hyd at fis Medi 2015¹, mae cyfradd hyder y cyhoedd yn Heddlu Gwent yn 58.1%. Mae hyn yn dangos gostyngiad cychwynnol o 1.7%, o gymharu â 2014. Fodd bynnag, dros y tair blynedd diwethaf, mae hyn yn dal i fod yn gynnydd cyffredinol o 5.1% mewn lefelau hyder y cyhoedd, ac mae'n dangos y ffocws y mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi ei roi, ac yn parhau i'w roi, ar wella'r hyder sydd gan y cyhoedd yn Heddlu Gwent a pherthynas y cyhoedd â hwy.

Er na ellir priodoli'r un elfen i'r cynnydd mewn hyder, mae gweithgareddau fel cofnodi troseddau'n gywir, rhaglen CARES, Connect Gwent, adroddiadau a chanfyddiadau ACEM, a rheoli lefelau Troseddu ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, gyda'i gilydd, wedi gwella hyder.

¹ Caiff data eu casglu a'u cyhoeddi dri mis yn ôl-weithredol


Boddhad Dioddefwyr

Parhaodd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu i fonitro perfformiad Heddlu Gwent trwy gydol 2015/16 mewn perthynas â boddhad diodefwyr. Rydym yn falch o ddweud bod yr heddlu wedi gwella ar ei safle o blith y 43 o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr, a'i fod wedi codi o safle 43 i safle 11 o ran lefelau boddhad cyffredinol diodefwyr troseddau.

Hefyd, rhwng mis Rhagfyr 2014 a mis Rhagfyr 2015, mae'r heddlu wedi gweld cynnydd o 12% mewn lefelau boddhad diodefwyr o ran cael yr wybodaeth ddiweddaraf. Dyma'r cynnydd canrannol mwyaf a welwyd o blith yr holl heddluoedd yng Nghymru a Lloegr. Mae hwn yn gyflawniad sylweddol y gellir ei briodoli i'r holl weithgareddau ar y cyd y mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r heddlu wedi eu rhoi ar waith, yn enwedig rhaglen CARES a Connect Gwent.

CARES

Mae proses CARES yr heddlu wedi helpu i wella boddhad dioddefwyr trwy sicrhau bod yr ymateb cywir yn cael ei ddarparu i'r dioddefwr ar bob cam o'r system cyfiawnder troseddol. Mae hyn, yn ei dro, yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Siarter y Dioddefwr² a'r Cod Ymarfer diwygiedig i Ddioddefwyr Troseddau³.



² Mae'n gosod y safonau gofynnol y gall pob dioddefwr trosedd eu disgwyl gan un o swyddogion Heddlu Gwent. <http://www.gwent.pcc.police.uk/cy/ymgysylltu/dioddefwyr/siarter-y-dioddefwyr/>

³ https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/487236/Cod_Ymarfer_I__Ddioddefwyr_Cymraeg.pdf

Model gweithredu newydd i'r Heddlu yng Ngwent

Ym mis Ebrill 2015, cychwynnodd yr heddlu ar gyfnod newydd o blismona trwy weithredu model gweithredu newydd. Rhoddwyd y model ar waith er mwyn rhoi'r cyfle i gysylltu ac ymgysylltu'n well â'n cymunedau yng Ngwent, trwy sicrhau bod gan yr heddlu ddigon o staff a bod ganddo'r adnoddau sydd eu hangen.

Trwy sicrhau bod yr adnoddau cywir yn y manau priodol, a bod strwythurau rheoli wedi cael eu symleiddio er mwyn cynnig perchenogaeth leol dros faterion lleol, mae amseroedd ymateb i alwadau â blaenoriaeth wedi gwella'n sylweddol. Mae'r model gweithredu newydd wedi canolbwyntio ar sicrhau bod yr adnoddau cywir ar gael ar y rheng flaen, ac mae hyn wedi helpu i wella boddhad dioddefwyr yn ogystal â'u hyder.

Sut rwy'n cael fy nwyn i gyfrif?

Panel Heddlu a Throseddu Gwent

Mae Panel Heddlu a Throseddu Gwent yn archwilio camau gweithredu a phenderfyniadau Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Mae'r Panel yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd i'w galluogi i asesu a yw'n dwyn y Comisiynydd Heddlu a Throseddu i gyfrif, ac mae'n darparu cymorth a her wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau. Yn ystod 2015/16, trafododd y Panel Heddlu a Throseddu (y Panel) faterion yn ymwneud â rhwymedigaethau statudol y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, a chraffodd yn benodol ar 'wasanaethau i ddioddefwyr'. O fewn y maes blaenoriaeth hwn, fe'i gwnaed yn ofynnol gan y Panel i Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ddangos yr effaith gadarnhaol yr oeddem wedi ei chael ar brofiad pob dioddefwr o'r system cyfiawnder troseddol. Roedd y Panel yn falch iawn o'r mentrau yr oeddem wedi eu rhoi ar waith, megis Connect Gwent a Siarter y Dioddefwr, yn ogystal â'r modd y maent wedi helpu i wella profiad pob dioddefwr yng Ngwent.

Archwilio

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau hefyd yn destun gwaith archwilio a gyflawnir gan Swyddfa Archwilio Cymru a TIAA (yr archwilwyr mewnol), sy'n ystyried y modd y mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau yn cyflawni ei phrosesau ariannol a llywodraethu ynghyd â phrosesau eraill.

Stopio a Chwilio

Yn unol â Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984, cod 5.4, gwnaeth Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau drefniadau i gynnull grŵp samplu blynyddol, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r gymuned. Rôl y grŵp yw craffu ar gyfran o gofnodion stopio a chwilio a ddewisir ar hap. Nod y grŵp yw sicrhau bod swyddogion yn cydymffurfio â'r gyfraith pan fyddant yn stopio unigolion, a bod yr wybodaeth y maent yn ei chofnodi yn dangos y rheswm/rhesymau, y sail gyfreithiol, a'r holl wybodaeth ynghylch amrywiaeth. Ym mis Gorffennaf 2015, cwblhawyd y trydydd ymarfer samplu. Roedd 78% o'r cofnodion yn cynnwys y sail gyfreithiol, ac mewn 77% o achosion, nid oedd yr Heddlu wedi cymryd camau pellach. Cafodd y prif ganfyddiadau hyn eu hadrodd yn ôl i'r heddlu a'r Bwrdd Stopio a Chwilio, er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r defnydd gorau o bwerau stopio a chwilio.

Data Symudol Stopio a Chwilio: Er mwyn datblygu'r modd y mae'r heddlu'n arfer ei bwerau Stopio a Chwilio, ac yn unol â chanfyddiadau'r ymarfer samplu ym mis Gorffennaf 2015, cyflwynodd yr heddlu 'ddata symudol' ym mis Hydref 2015. Nod y dechnoleg symudol yw cofnodi pob achos o stopio a chwilio a chofnodi'r holl gategoriâu gwybodaeth mewn fformat gorfodol. Mae hyn yn sicrhau bod cofnodion yn fwy tryloyw, cywir ac atebol. Mae'r system newydd hefyd wedi golygu bod llai o amser yn cael ei dreulio yn cofnodi'r achosion, ac mae hynny wedi golygu bod gan swyddogion fwy o amser i'w dreulio ar batrôl. Felly, mae'r heddlu'n gwneud defnydd mwy effeithiol o'r wybodaeth a gesglir trwy stopio a chwilio at ddibenion atal a datrys troseddau.

Yr Ail a'r Drydedd Flaenoriaeth: Atal a Lleihau troseddau a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol

Mae lleihau troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ein cymunedau a'r pwysau dilynol ar adnoddau'r heddlu wedi bod yn brif ffocws trwy gydol 2015/16. Rydym wedi parhau i weithio gyda phartneriaid allweddol a'r gymuned er mwyn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn, gyda'n gilydd.

Lleihau Troseddau ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Y llynedd, dywedasom wrthyfych am ein trefniadau partneriaeth cydweithredol â Heddlu Dyfed Powys a Heddlu De Cymru i asesu a lleihau'r galw. Mae'r trefniant hwn wedi parhau trwy gydol 2015/16.

Mae cywirdeb cofnodion troseddau (moesegol) yn fesur sy'n helpu i ddangos effaith wirioneddol troseddau ar ddinasyddion Gwent. Mae'n bleser gennym ddweud bod Heddlu Gwent yn un o'r heddluoedd gorau yn y DU o ran cywirdeb cofnodion troseddau cenedlaethol, a'r gyfradd gydymffurfio yn ystod 2015/16 oedd 94%.

Hefyd, mae'r ffigurau troseddau yn awgrymu bod y gwaith caled gyda sefydliadau partner wedi talu ar ei ganfed, gan mai dim ond cynnydd bach o 0.87% a welwyd rhwng mis Ionawr 2015 a mis Rhagfyr 2015, sef gwelliant o 2.7% o gymharu â 2014/15. Mae hyn wedi golygu bod Gwent yn y 9^{fed} safle o blith y 43 o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr ar gyfer troseddau fesul 1000 o bobl.

Mentrau Partneriaeth

Gwent Mwy Diogel

Yn 2015 mi fuodd y Comisiynydd yn weithredol yn sefydlu partneriaeth eang Gwent o'r enw 'Gwent Mwy Diogel'. Cafodd y bartneriaeth ei sefydlu er mwyn gweithio gyda phartneriaid diogelwch cymunedol allweddol a darparu trosolwg strategol a dull strwythuredig o gefnogi darpariaeth lleol ar draws y pum ardaloedd awdurdodau lleol Gwent ar gyfer ymdrin â materion diogelwch cymunedol cyffredin. Nod y grŵp yw mynd i'r afael â materion diogelwch cymunedol rhanbarthol sy'n effeithio ar gymunedau lleol. Mi fydd Gwent Mwy Diogel yn cydlynu mentrau a gweithgareddau ar y cyd ar draws y rhanbarth, ond nid yw'n cymryd lle y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol statudol sy'n bodoli ac yn gweithredu drwy bob un o'r Byrddau Gwasanaethau Lleol. Mae Gwent Mwy Ddiogel yn cynnwys cynrychiolwyr o'r awdurdodau lleol, yr heddlu, bwrdd iechyd lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, cynrychiolwyr addysg, y sector gwirfoddol, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, gwasanaethau troseddau ieuencid a'r gwasanaethau prawf ac adsefydlu.

Nod y grŵp yw datblygu ymagwedd ymgysylltu ar y cyd yn y gymuned er mwyn gwella partneriaethau gyda'r bwriad o gyflawni canlyniadau gwell i ymdrin â throedd, ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASB), atal aildroseddu a chefnogi dioddefwyr.

Mae Gwent Mwy Diogel yn galluogi rhannu gwybodaeth er mwyn hwyluso gweithio mewn partneriaeth; dylanwadu ar gyfleoedd cyllido i gefnogi blaenoriaethau'r Cynllun yr Heddlu a Throseddau y Comisiynydd presennol; er mwyn nodi dyblygu a bylchau yn y ddarpariaeth; ac er mwyn darparu gwybodaeth i gefnogi comisiynu gwasanaethau diogelwch cymunedol.

Mae gan Gwent Mwy Diogel raglen gynhwysfawr o waith sy'n edrych ar faterion megis:

- Atal a lleihau troseddu
- Mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Cefnogi dioddefwyr
- Symud ymlaen mesurau a dulliau Cyfiawnder Adferol gyda phartneriaid
- Darparu prosiectau trawiadol ar draws Gwent sy'n elwa ar ymagwedd o weithio ar y cyd

Dyfodol Positif

Yn 2015/16, cefnogodd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau 'Dyfodol Positif', sef prosiect chwaraeon i bobl ifanc. Mae'r prosiect yn cynnig buddion helaeth o ran atal ymddygiad gwrthgymdeithasol ac mae'n herio ymddygiad rhai o'r bobl ifanc yng nghymunedau Gwent.

Yn ystod 2015/16, mae 9686 o bobl ifanc wedi cymryd rhan yn y prosiect, sy'n gynydd gwyh o bron 300% o gymharu â 2015/15. Gellir priodoli datblygiad y prosiect, a'r cynnydd aruthrol yn nifer y cyfranogwyr, i'r canlyniadau cadarnhaol y mae'r bobl ifanc yn eu cyflawni trwy'r prosiect, a'r buddion ehangach yn y cymunedau lle mae'r bobl ifanc hynny'n byw.



Ffigurau Cyfranogwyr ar gyfer Dyfodol Positif Gwent

2013 / 14 - Casnewydd yn unig			2014 / 15 - Ledled Gwent			2015 / 16 - Ledled Gwent		
Gwryw	Benyw	Gwirfoddolwyr	Gwryw	Benyw	Gwirfoddolwyr	Gwryw	Benyw	Gwirfoddolwyr
1186	439	11	1717	708	35	6780	2906	26
Cyfanswm : 1636			Cyfanswm : 2460			Cyfanswm : 9712		

Canlyniadau ar gyfer 2015 / 16:

- Mae 79% (5756) wedi mynychu darpariaeth gymunedol
- Mae 5% (354) wedi cael eu hatgyfeirio ar sail 1:1
- Mae 9% (651) wedi bod yn rhan o weithgareddau grŵp
- Mae 5% (384) o'r bobl ifanc wedi ennill cymwysterau
- Mae 16 wedi mynd ymlaen i gyflogaeth, boed hynny ym maes Chwaraeon neu mewn maes arall

Ymateb mewn modd Adferol

Yng Ngwent, mae 'ymateb mewn modd adferol' yn ddull partneriaeth pwysig ar gyfer atal a lleihau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Dyma pam rydym wedi parhau i weithio gyda phartneriaid a chefnogi Carchar Ei Mawrhydi Prescoed i sefydlu prosiect adferol. Nod y prosiect yw rhoi'r cyfle i ddiodefwyr gwrdd â throseddwy ac egluro effeithiau gwirioneddol troseddau. Mae hefyd yn helpu troseddwy i gymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd, ac, ar yr un pryd, wneud iawn am eu troseddau. Bydd y prosiect hwn yn dechrau yn 2016, a bydd yn helpu i leihau nifer yr achosion o aildroseddu a fictimeiddio. Fel rhan o Gwent Mwy Diogel, nodwyd bod ymateb mewn modd adferol yn un o'r prif feysydd â blaenoriaeth y bydd y bartneriaeth yn canolbwyntio arno ac yn ei ddatblygu ar gyfer y dyfodol.

Rhaglen Cyswllt Ysgolion yr Heddlu Cymru Gyfan

Rhaglen atal troseddu yw Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan yr Heddlu, a ariennir ar y cyd gan bedair heddlu Cymru a Llywodraeth Cymru. Nod y rhaglen yw gweithio tuag at atal trosedd ac anhrefn gyda phobl ifanc a'r gymuned trwy addysg, a hyrwyddo egwyddorion dinasyddiaeth gadarnhaol mewn ysgolion a chymunedau ehangach. Addysgir y gwersi gan Swyddogion yr Heddlu hyfforddedig, sy'n gweithio gydag athrawon lleol i gefnogi ysgolion cwricwlwm ehangach.

Rydym wedi gweithio'n galed yng Ngwent i sicrhau bod y Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan yn rhoi gwybodaeth i'n pobl ifanc i'w galluogi i gadw'n ddiogel a rhyngweithio'n gadarnhaol yn eu cymunedau. Yn ddiweddar, mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi adolygu'r ddarpariaeth yng Ngwent ar y cyd â Llywodraeth Cymru a'r heddlu, er mwyn parhau i gynnal y rhaglen yn y dyfodol agos.

Camau Unioni Cymunedol

Ers mis Hydref 2014, mae camau unioni cymunedol wedi bod ar waith ledled Gwent. Maent yn parhau i fod yn ffordd effeithiol o ddelio â throseddu lefel isel megis dwyn a difrod troseddol. Mae cysyniad camau cymunedol yn galluogi diodefwyr i fynegi eu barn ynghylch y modd yr ymdrinwyd â'r digwyddiad, ac mae'n golygu bod modd gwneud iawn am droseddau'n gyflym, a chau pen y mwdwl i ddiodefwyr. Hefyd, mae'r dull gweithredu hwn yn galluogi'r unigolyn/unigolion cyfrifol i wynebu'r hyn y maent wedi ei wneud, ac mae'n gyfle i gynyddu boddhad diodefwyr a meithrin ymddiriedaeth a hyder yn yr heddlu, trwy ddull gweithredu pragmataidd a synnwyr cyffredin.

Nid oes gennym ddata cymaradwy blynyddol; fodd bynnag, gwyddom fod 68 o gamau unioni wedi'u cyflwyno yn ystod y chwe mis cyntaf (Hydref 2014 – Mawrth 2015), a bod 301 o gamau unioni cymunedol i oedolion wedi'u cyflwyno yn ystod y 10 mis dilynol (Ebrill 2015 - Ionawr 2016), sy'n gynydd sylweddol. Mae hyn yn dangos cynnydd cyffredinol mewn cefnogaeth gymunedol i'r dull gweithredu hwn.

Y Sbardun Cymunedol

Mae'r Sbardun Cymunedol yn rhoi'r cyfle i ddiodefwyr ofyn am adolygiad o gamau gweithredu asiantaethau pan fyddant yn anfodlon ar y ffordd yr ymdrinnir â'u problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau rôl o ran cynnig llwybr i ddiodefwyr sy'n anfodlon ar ganlyniadau'r Sbardun Cymunedol, ac sydd, o ganlyniad i hynny, yn dymuno gwybod sut y cafodd eu hadolygiad ei gynnal. Cynhaliwyd ein hadolygiad cyntaf fel rhan o'r Sbardun Cymunedol ym mis Ionawr 2016.

Canolfan Partneriaeth Gwent

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau yn monitro hynt y tair Canolfan Partneriaeth Gwent sydd wedi'u sefydlu ledled Gwent. Mae'r canolfannau yn bartneriaeth rhwng Heddlu Gwent a'r Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid lleol. Nod y Ganolfan yw annog penderfyniadau ar y cyd, canlyniadau effeithiol, ac ymyriadau cyfiawnder adferol i bobl ifanc.

Trwy'r broses hon, rydym wedi gweld cynnydd o 26% yn nifer y Gwarediadau Cyfiawnder Adferol a ddefnyddiwyd ac a gwblhawyd ymhlith pobl ifanc, o gymharu â'r un cyfnod yn 2014 (cwblhaodd 114 o bobl ifanc Warediadau Cyfiawnder Adferol rhwng mis Ebrill a mis Medi 2015).

Adenydd i Hedfan



Er mwyn cefnogi gwaith atal troseddau wedi'i dargedu, rydym wedi darparu cyllid i fenter "Adenydd i Hedfan" am flwyddyn arall. Mae'r fenter yn tynnu sylw at beryglon a chanlyniadau trasig camddefnyddio sylweddau, ac yn mynd i'r afael â'r peryglon a'r canlyniadau hynny. Anelir y prosiect at blant 10-11 oed, ac fe'i darperir gan Swyddogion yr Heddlu ledled Gwent, trwy'r Rhaglen Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan. Mae'r rhaglen yn cael ei gwerthuso'n rheolaidd, ac mae cyfranogwyr yn cael eu hannog i roi adborth ar eu profiad.

Seiberdroseddau

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cynnwys seiberdroseddau yn y Gofynion Plismona Strategol Cenedlaethol. Mae'r gofynion hyn yn ymdrin â phroblemau sy'n bygwth cymdeithas. Mae seiberdroseddau yn her gynyddol i'n cymunedau yn y DU, yn ogystal ag yn fyd-eang. Felly, rydym wedi ei gynnwys fel ffocws penodol yn y Cynllun Heddlu a Throseddau.

Rydym wedi gweithio gyda'r Heddlu yn ystod 2015/16 i gynnal trosolwg cyffredinol o'r problemau sy'n dod i'r amlwg ym maes seiberdroseddau, trwy fynychu'r Bwrdd Gofynion Plismona Strategol lle mae Heddlu Gwent yn cyflwyno diweddariadau rheolaidd. Mae gan Heddlu Gwent Fwrdd Llywodraethu Seiberdroseddau, sy'n gyfrifol am ddatblygu Strategaeth Seiber Ranbarthol Gwent. Rydym wedi cefnogi'r agenda hon trwy sefydlu cyfarfodydd brecwast ar y cyd â pherchenogion busnes, er mwyn codi ymwybyddiaeth o fygythiad seiberdroseddau a'i effaith ar fusnesau, a darparu gwybodaeth ataliol.

Yn 2015, gwnaethom ariannu mentor 'Get Safe Online'. Nod y prosiect yw darparu cyngor ar y

wefan i'r gymuned a busnesau ynghylch sut i adnabod seiberdroseddu a diogelu eu hunain rhagddo, yn ogystal â hyrwyddo diogelwch ar y Rhyngwryd. Mae'r prosiect hefyd yn darparu hyfforddiant i ymarferwyr a chyflwyniadau i grwpiau yng Ngwent. Bydd y fenter yn cael ei lansio yng nghynhadledd Diogelu'r Henoed Gyda'n Gilydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ym mis Ebrill 2016.

Gwella'r Broses Cyfiawnder Troseddo

Troseddau Casineb


Mae gwella'r modd y caiff Troseddau Casineb eu hadnabod a'u herlyn wedi bod yn brif ffocws wrth ddatblygu'r System Cyfiawnder Troseddol yn ystod 2015/16. Ym mis Tachwedd 2015, gwnaethom gefnogi Heddlu Gwent trwy wneud cyflwyniad yn y digwyddiad Troseddau Casineb Anabledd rhanbarthol i gynulleidfa o dros 80 o gynrychiolwyr, ochr yn ochr â'r prif siaradwr, a oedd wedi goroesi ymosodiad terfysgol 7/7 yn Llundain.



Er mwyn cefnogi'r ymgyrch hon, yn ystod y cyfnod cyn Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb, gwnaethom ddarparu cyllid i hyfforddi staff Heddlu Gwent a Gwasanaeth Eryl y Goron ynghylch erlyniadau troseddau casineb. Cymerodd 18 o Swyddogion yr Heddlu ran yn yr hyfforddiant, ac aethant ati wedi hynny i ddsbarthu a defnyddio deunyddiau'r ymgyrch Troseddau Casineb Cymru gyfan yn eu cymunedau lleol.

Cafodd y digwyddiad effaith fawr, a rhoddwyd llawer o sylw iddo yn y cyfryngau. Ein gobaith yw y bydd hyn yn helpu i newid tueddiadau adrodd presennol mewn perthynas â throseddau casineb yng Ngwent. Yn ystod 2015/16, gwelsom ostyngiad o 29% yn lefelau'r troseddau casineb a gofnodwyd (o fis Ebrill i fis Ionawr 2016) o gymharu â'r un cyfnod yn 2014/15. Fodd bynnag, rydym wedi gweld boddhad mawr ymhlith dioddefwyr wrth i'r heddlu ddelio â phroblemau troseddau casineb. Roedd lefelau boddhad dioddefwyr anabl troseddau casineb o ran eu barn ynghylch y ffordd yr oedd yr Heddlu wedi delio â'u problemau yn 81.9%.

Troseddau Casineb 2015 / 16




IRIS Gwent

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn parhau i ariannu Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau Gwent, sy'n cefnogi pobl sy'n rhan o'r System Cyfiawnder Troseddol o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau. Mae Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau Gwent yn gweithio i leihau niwed pellach o ganlyniad i aildroseddu a chamddefnyddio sylweddau'n barhaus, gan gynnwys y defnydd o sylweddau seicoweithredol. Ym mis Mai 2015, lansiodd Gwasanaeth Cyffuriau ac

Alcohol Gwent, a gomisiynwyd ar y cyd.

Dan gyfarwyddyd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, ac mewn partneriaeth â Bwrdd Cynllunio Ardal Gwent, Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, comisiynwyd Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent i ddarparu gwasanaeth ymyriadau teuluol, cyffuriau ac alcohol integredig i unigolion, gan gynnwys troseddwy a chymunedau y mae camddefnyddio sylweddau yn effeithio arnynt. Dyma'r gwasanaeth cyntaf o'i fath i'w roi ar waith ledled Gwent.



Ailfrandiwyd elfen cyfiawnder troseddol y gwasanaeth yn 'IRIS

Gwent', sy'n adlewyrchu ethos y gwasanaeth o ran darparu Gwasanaeth Ymyriadau Adferol Integredig. Cafwyd 426 o atgyfeiriadau at y gwasanaeth rhwng mis Mai 2015 a mis Mawrth 2016, a chwblhaodd 138 o bobl eu triniaeth yn llwyddiannus. Roedd 35% o'r atgyfeiriadau o ffynonellau sylfaenol yn atgyfeiriadau gan garchardai, a 10% yn atgyfeiriadau gan Heddlu Gwent.

Ansawdd - Oes Unrhyw Un yn Well ei Fyd?

Ymyriadau a gwblhawyd	77	Canran yr ymyriadau a gwblhawyd	23%
- Yn Rhydd o Gyffuriau/Troseddu	52	- Yn Rhydd o Gyffuriau/Troseddu	15%
- Yn Rhydd o Droseddu yn Unig	20	- Yn Rhydd o Droseddu yn Unig	6%
- Yn Rhydd o Gyffuriau yn Unig	7	- Yn Rhydd o Gyffuriau yn Unig	2%

Llwybr Dargyfeirio Menywod

Mae 17% o'r bobl sy'n cael eu harestio yng Nghymru yn fenywod (tua 225,000 bob blwyddyn). Mae tystiolaeth yn awgrymu bod menywod sy'n cael eu harestio yn aml yn droseddwyrisg isel, ond ystyrir eu bod yn rhai risg uchel yn nhermau anghenion a bod yn agored i niwed. Mae rhai yn wynebu problemau niferus a chymhleth, gan gynnwys iechyd meddwl gwael, camddefnyddio sylweddau, a cham-drin.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, parhaodd Rheoli Integredig Troseddwyrisg i ddatblygu, a than gyfarwyddyd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, ac ar ran y pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddu yng Nghymru, aethom ati i gyflwyno cynnig llwyddiannus i Gronfa Arloesi'r Swyddfa Gartref, gan sicrhau cyllid dwy flynedd ar gyfer 2014/15 a 2015/16 i alluogi'r cynllun Dargyfeirio i gael ei dreialu ar bedwar safle ledled Cymru (un ym mhob ardal Heddlu).



Mae'r Llwybr yn targedu menywod sy'n rhan o'r System Cyfiawnder Troseddol, ac mae'n nodi dulliau a llwybrau penodol i helpu i leihau cyfraddau aildroseddu. Mae'r Llwybr yn cynnwys dargyfeirio troseddwyrisg lefel isel sy'n Fenywod oddi wrth y System Cyfiawnder Troseddol yn gyfan gwbl, a'u hatgyfeirio at lwybrau a chymorth ystyrlon. Hyd yma, yng Ngwent yn unig, mae 33 o fenywod wedi cael eu dargyfeirio at y cynllun Dargyfeirio, sef cyfradd atgyfeirio o bron 10% o'r menywod hynny a arestiwyd.

Rheoli Integredig Troseddwy'r (IOM)

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddwy'r wedi parhau i gyllido a chefnogi Rheoli Integredig Troseddwy'r Gwent. Mae hyn wedi cynnwys sefydlu timau integredig amlasiantaeth, sy'n delio â'r troseddwy'r mwyaf cyson yng Ngwent. Bydd hyn yn digwydd eto yn y dyfodol agos pan fydd Heddlu Gwent a'i phartneriaid yn ystyried ail-greu'r model gweithio hwnnw gyda Rheoli Integredig Troseddwy'r Difrifol a Pheryglus Cymru (WISDOM).

Ym mis Mehefin 2015, helpodd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddwy'r i lansio'r Fframwaith Strategol a'r Llawlyfr Cyflawni yng Ngwent, fel rhan o'r gwaith o gyflawni dull cyson o ymdrin â Rheoli Integredig Troseddwy'r ledled Cymru. Dros y cyfnod hwn, mae Gwent wedi rheoli 54 o droseddwy'r ym maes Rheoli Integredig Troseddwy'r Meddiangar. Mae hyn yn cynnwys 33 o droseddwy'r o Flaenau Gwent, Caerffili a Thorfaen, a 33 o droseddwy'r o Sir Fynwy a Chasnewydd.

Wrth astudio carfan Gwent dros gyfnod o 18 mis, mae'r data sydd ar gael wedi dangos y gyfradd aildroseddu isaf yng Nghymru, sef 22.8%.

Y Bedwaredd Flaenoriaeth: Diogelu pobl rhag niwed difrifol

Er mwyn sicrhau bod pobl yng Ngwent yn cael eu diogelu rhag niwed difrifol, rydym yn monitro pob maes sy'n ymwneud ag amddiffyn y cyhoedd trwy gael adroddiadau cyhoeddus chwarterol gan Bennaeth Uned Amddiffyn y Cyhoedd Heddlu Gwent ar y meysydd canlynol:

- Diogelu plant
- Troseddwy'r risg uchel, gan gynnwys troseddwy'r rhyw
- Treisio a digwyddiadau rhywiol difrifol
- Amddiffyn oedolion
- Masnachu pobl
- Trais yn Erbyn Menywod, Trais Domestig a Thrais Rhywiol

Isod ceir amlinelliad o'r ffyrdd eraill rydym wedi mynd ar drywydd y flaenoriaeth hon yn ystod 2015/16.

Amddiffyn Plant

Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru (SEWSCB)

Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddwy'r ddyletswyddau diogelu statudol. Er mwyn sicrhau bod y ddyletswyddau hyn yn cael eu cyflawni, mae'r Comisiynydd yn cael ei gynrychioli gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddwy'r yng Ngrŵp Gwella Gwasanaethau Uned Amddiffyn y Cyhoedd Heddlu Gwent. Mae hyn yn galluogi'r Swyddfa i fonitro a chraffu ar gyfeiriad strategol yr heddlu, a'r gweithgareddau y mae'n ymgymryd â hwy i ddiogelu plant a phobl ifanc.

Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi nodi Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn un o'r 'Gofynion Plismona Strategol Cenedlaethol'. Mae hyn yn golygu bod camfanteisio'n rhywiol ar blant yn faes â blaenoriaeth y mae angen i'r heddlu fynd i'r afael ag ef, gan ei fod yn bygwth diogelwch plant a phobl ifanc ledled y DU. Felly, rhaid i bob Comisiynydd Heddlu a Throseddwy'r yn y DU sicrhau bod pob heddlu yn rhoi blaenoriaeth i leihau effaith camfanteisio'n rhywiol ar blant yn lleol.

Mae Heddlu Gwent hefyd wedi nodi, trwy ddata perfformiad ac asesiad strategol yr heddlu, fod camfanteisio'n rhywiol ar blant yn flaenoriaeth gynyddol o ran plismona lleol. Er mwyn mynd i'r afael â'r math cymhleth ac amlweddol hwn o droseddu, rydym wedi cyfrannu cyllid at Fwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru er mwyn rhoi ymgyrch ar waith i godi ymwybyddiaeth o gamfanteisio'n rhywiol ar


blant. Bydd yr ymgyrch yn sicrhau bod pob un o'r 51 o ysgolion uwchradd yng Ngwent yn cael y cyfle i weld cynhyrchiad theatrig, a fydd yn cyfleu'r problemau sy'n gysylltiedig â chamfanteisio'n rhywiol ar blant. Bydd y cynhyrchiad yn cael ei berfformio o flaen holl ddisgyblion blwyddyn wyth Gwent, sef dros 6,000 o ddisgyblion. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i'r bobl ifanc hyn ymgysylltu â'r perfformiad a, thrwy hynny, feithrin eu hymwybyddiaeth, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r risg bosibl o gamfanteisio'n rhywiol ar blant.

Cam-drin domestig

O gymharu â'r un cyfnod yn 2014/15, mae'r ffigurau troseddau trais domestig ar gyfer 2015/16 yn dangos cynnydd bach o 806 o droseddau trais domestig wedi'u cofnodi.

Er mwyn sicrhau bod gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ddealltwriaeth lawn o ddatblygiad Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, rydym yn rhan o'r Bwrdd Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Partneriaeth amlasiantaeth yw'r bwrdd, a gadeirir gan gynghorydd cenedlaethol cyntaf Cymru dros Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae'r dull gweithredu hwn wedi cyfrannu at ddyraniadau cyllid pellach i ddarpariaeth Ymgynghorwyr Trais Domestig Annibynnol, y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol a'r prosiect Cyflawnwyr, a eglurir ymhellach isod.

Trais domestig 2015 / 16



Ymgynghorwyr Trais Domestig Annibynnol

Yn ystod 2015/16, rydym wedi parhau i gefnogi darpariaeth Ymgynghorwyr Trais Domestig Annibynnol, trwy ddyrannu Cyllid Diogelwch Cymunedol i awdurdodau lleol yng Ngwent. Byddwch yn cofio i ni ddweud wrthy'ch y llynedd ein bod yn gweithio gyda Chyngor Dinas Casnewydd i weithredu Prosiect Braenaru Cam-drin Domestig Gwent.

Ym mis Ebrill 2015, rhoddwyd dull gweithredu rhanbarthol newydd ar waith i ymdrin â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Yn 2015, fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r dull gweithredu newydd hwn yng Ngwent, aethpwyd ati i ad-drefnu gwasanaeth Ymgynghorwyr Trais Domestig Annibynnol Gwent, yr ydym wedi ei gefnogi'n helaeth. Mae Bwrdd Comisiynu Strategol Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi cytuno i ddyrannu £151,809 o'r cyllid ar gyfer 2016/17 i ddatblygu'r model rhanbarthol newydd hwn a sicrhau ei fod yn gynaliadwy. Elfen allweddol o'r cyllid hwn yw creu swydd cydgysylltydd Ymgynghorwyr Trais Domestig Annibynnol. Bydd y swydd yn gyfrifol am reoli'r gwasanaeth a sicrhau ei fod yn cael ei ddarparu'n effeithiol.

Prosiect Cyflawnwyr Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gwent (GDAS)

Mae lleihau effaith cam-drin domestig yn rhan gynhenid o blismona, oherwydd y goblygiadau pellgyrhaeddol i'r rheini sy'n dioddef cam-drin neu drais yn y cartref, yn ogystal â'r rheini sy'n ei weld. Felly, rydym wedi cefnogi prosiect cyflawnwyr Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gwent, gan ei fod yn darparu gwasanaeth y mae ei ddifawr angen ar y rheini sy'n cyflawni cam-drin domestig, ac, yn ei dro, yn sicrhau diogelwch dioddefwyr a phlant.

Nod y rhaglen 15 wythnos yw herio a newid agweddau'r unigolion hynny sy'n cyflawni cam-drin domestig a sicrhau eu bod yn gallu cydnabod a chymryd cyfrifoldeb dros eu gweithredoedd, a thrwy hynny, leihau ac atal niwed pellach. Mae'r prosiect wedi ymgysylltu ag unigolion sydd wedi ymuno â'r prosiect yn wirfoddol er mwyn newid eu hymddygiad

Cam-drin/Trais Rhywiol

Y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC)

Yng Ngwent, mae nifer yr achosion o drais a gofnodwyd wedi cynyddu 25% rhwng mis Ebrill 2015 a mis Ionawr 2016. Mae hon yn neges 'gadarnhaol' mewn gwirionedd, oherwydd mae'n awgrymu bod mwy o ddiodefwyr yn rhoi gwybod i'r heddlu am y troseddau hyn, a, thrwy hynny, yn galluogi'r heddlu i ddwyn y cyflawnwyr i gyfrif. Mae'r troseddau hyn yn cael effaith fawr ar fywydau unigolion a'u hanwyliaid, felly mae'n hollbwysig ein bod yn parhau i weithio'n agos gyda Llwybrau Newydd, gan ddarparu cyllid i asesu anghenion unigolion sy'n aros am wasanaethau cwnsela.

Mae Llwybrau Newydd hefyd yn parhau i chwarae rôl yn Connect Gwent, trwy sicrhau bod anghenion unrhyw unigolion y mae trais rhywiol yn effeithio arnynt yn gallu cael eu hasesu'n llawn a'u gweld cyn gynted â phosibl.

Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau wedi parhau i gael ei chynrychioli ar Fwrdd Ymosodiadau Rhywiol ac is-grŵp gorchwyl a gorffen 'Cyllid' Rhaglen Iechyd Gydweithredol De Cymru yn ystod 2015/16. Mae'r is-grŵp wedi cytuno i ad-drefnu darpariaeth y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol ledled Gwent, De Cymru a Dyfed Powys, er mwyn sicrhau bod y model mwyaf cynaliadwy ac effeithiol yn cael ei weithredu.

Iechyd Meddwl

Gwella Darpariaeth Iechyd Meddwl yng Ngwent

Bu ffocws parhaus yn ystod 2015/16 ar safonau darpariaeth iechyd meddwl yn yr Heddlu a'r System Cyfiawnder Troseddol. Ym mis Rhagfyr 2015, llofnododd y Comisiynydd Heddlu a Throseddau 'Concordat Gofal Iechyd Meddwl Mewn Argyfwng' Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr â sefydliadau partner yng Nghymru. Bydd y concordat yn sicrhau bod pobl sydd mewn argyfwng oherwydd salwch meddwl, ac a all fod dan gadwad o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, yn cael y cymorth a'r gofal priodol. Nod craidd y concordat yw lleihau nifer yr ystafelloedd yn nalfa'r heddlu ar gyfer oedolion, a rhoi'r gorau i'w defnyddio fel lloches i bobl fanc dan 18 oed sydd mewn argyfwng oherwydd iechyd meddwl.

Ers 2013, yng Ngwent, o dan Adran 136 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, yn gyffredinol, mae nifer y bobl sydd dan gadwad yn y ddalfa oherwydd problemau iechyd meddwl wedi lleihau 19%. Yn bwysig ddigon, trwy weithio mewn partneriaeth, mae nifer yr unigolion sydd dan gadwad mewn ystafelloedd yn y ddalfa fel lloches iddynt hefyd wedi lleihau 49% (o 172 i 88), ac mae nifer y rheini sy'n cael eu trosglwyddo i fannau iechyd wedi cynyddu 17%. Gan fod nifer y bobl sydd dan gadwad yn lleihau, mae'r data hyn yn amlwg yn dangos ein bod eisoes yn cyfrannu at nodau craidd y concordat.

Y Bumed Flaenoriaeth: Gwneud y Defnydd Gorau o Adnoddau a Sicrhau Gwerth am Arian

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau yn cael adroddiadau rheolaidd fel rhan o waith monitro'r gyllideb, er mwyn helpu i sicrhau bod yr Heddlu yn darparu gwasanaeth sy'n cynnig gwerth am arian i bobl Gwent.

Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau wedi:

- Cytuno ar ofyniad cyllidebol o £119,539,273 i Heddlu Gwent ar gyfer 2016/17 (y gyllideb yn 2015/16 oedd £117,773,547)

- Pennu cynnydd o 3.99% yn y dreth gyngor (y cynnydd yn 2015/16 oedd 3.99%)
- Cytuno ar gyllideb gyfalaf werth £4,209,000 ar gyfer 2016/17
- Parhau i fonitro sut mae'r Prif Gwnstabl yn rheoli pwysau ar y gyllideb a chaledi (trwy 'Cadw ar y Blaen 8', rhaglen drawsnewid yr heddlu. Rhwng 2008/9 a diwedd 2015/16, cyflawnwyd gwerth bron £38m o arbedion effeithlonrwydd)

Faint mae Heddlu Gwent yn ei gostio?

Ar gyfer 2015/16, pennwyd y cyllidebau gros canlynol ar gyfer referniw gwasanaethau plismona yng Ngwent:


- Swyddogion yr Heddlu - £67.3m
- Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu - £6.0m
- Staff yr Heddlu - £23.4m
- Costau eraill sy'n gysylltiedig â chyflogaion, e.e. hyfforddiant, pensiynau anafiadau, ac ati - £2.2m
- Adeiladau - £6.0m
- Cludiant - £3.6m
- Cyflenwadau a Gwasanaethau/Contractau a Thaliadau Cyfalaf - £20.7m
- Digwyddiadau Mawr a Mentrau Rhagweithiol - £0.6m
- Costau eraill - £(0.9)

Hefyd, ar gyfer 2015/16, pennwyd y cyllidebau cyfalaf canlynol yng Ngwent:

- Ystâd - £0.5m
- Cerbydau - £0.7m
- Systemau Gwybodaeth a Chyfathrebu - £2.8m
- Prosiectau a Chynlluniau Cyfalaf Eraill - £0.2m

Mae yna sawl system ar waith i sicrhau bod gwerth am arian yn cael ei gyflawni, gan gynnwys:

- Meincnodi costau â heddluoedd eraill yn flynyddol trwy broffiliau Gwerth am Arian ACEM
- Disgwyllir y bydd dyfarniad sicrwydd blynyddol yr archwilyr mewnol ynghylch y system rheolaeth fewnol gyffredinol yn 'Rhesymol'
- Cynnal adolygiad blynyddol o drefniadau llywodraethu trwy lunio a chyhoeddi fy Natganiad Llywodraethu Blynyddol
- Fy Mwrdd Comisiynu Strategol amlasiantaeth
- Yn ystod 2015, cynhaliodd ACEM gyfres o archwiliadau fel rhan o'i rhaglen PEEL (Effeithlonrwydd, Effeithlonrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu). Mae'r adroddiadau a gafwyd yn cadarnhau'r gwaith gwyh y mae'r heddlu wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn, ac yn darparu toreth o dystiolaeth o'r gwelliant parhaus yn y gwasanaethau plismona a ddarperir i bobl Gwent. Rhoddwyd dyfarniad cyffredinol o 'DA' i bob maes a archwiliwyd.
- Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal archwiliad blynyddol o'n Datganiad o Gyfrifon, a hynny ym mis Gorffennol bob blwyddyn. Mae'n cyflwyno ei chanfyddiadau (gan gynnwys asesiad o'r trefniadau sydd gennyf ar waith i sicrhau gwerth am arian) ym mis Medi'r un flwyddyn. Dros nifer o flynyddoedd, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi rhoi barn archwilio 'ddiamod' ar fy Natganiad o Gyfrifon (datganiad Awdurdod yr Heddlu yn flaenorol). Mae hyn yn golygu bod y datganiadau ariannol yn rhoi darlun 'gwir a theg', a'u bod wedi'u paratoi'n briodol yn unol â deddfwriaeth berthnasol, cyfarwyddyd neu reoliadau, a safonau cyfrifyddu perthnasol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd wedi bod yn gyson fodlon y bu gennyf drefniadau priodol ar waith yn ystod y flwyddyn i sicrhau fy mod yn gwneud defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau, a, thrwy hynny, yn sicrhau gwerth am arian.



Ian Johnston QPM

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau ar gyfer Gwent

